

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CASTELL-NEDD PORT TALBOT

CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL

ADRODDIAD BLYNYDDOL

Asesiad o'n perfformiad yn 2015-2016



Os oes angen yr wybodaeth hon arnoch mewn print bras neu mewn fformat arall, ffoniwch y Tîm Strategaethau Corfforaethol ar 01639 763242 neu e-bostiwch: corporate.strategy@npt.gov.uk

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

Cynnwys

Adran 1 – Deddfwriaeth Cydraddoldeb	2
Adran 2 – Diwygio'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.....	4
Adran 3 - Cynnydd yn erbyn pob un o'n hamcanion cydraddoldeb	5
Adran 4 – Bodloni dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus a dyletswyddau penodol	41
Adran 5 – Dweud eich dweud	47

Adran 1 – Deddfwriaeth Cydraddoldeb

Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010, drwy gyfuno a disodli'r ddeddfwriaeth flaenorol ar wrthwahananiaethu, wedi symleiddio a chryfhau'r gyfraith, gan gael gwared ar anghysondebau a'i gwneud yn haws i bawb ei deall. Drwy roi'r Ddeddf ar waith, byddwn yn gweithio i greu cymdeithas decach, gwella gwasanaethau cyhoeddus, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau hirsefydlog a gwella bywydau pobl yn y pen draw.

O dan y Ddeddf, mae'n ofynnol i'r cyngor, ynghyd â chyrff cyhoeddus eraill, roi ystyriaeth briodol i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu a fictimeiddio, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da ymhlith a rhwng pobl sy'n perthyn i wahanol grwpiau gwarchoddedig (adnabyddir hyn fel Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus).

Dyma'r grwpiau neu'r nodweddion gwarchoddedig:

- Oedran
- Ailbennu rhywedd
- Rhyw
- Hil
- Anabledd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Tueddfryd rhywiol
- Crefydd a chred
- Priodas a phartneriaeth sifil (o ran yr angen i ddileu gwahaniaethu'n unig)

Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011

Yng Nghymru, mae dyletswyddau penodol wedi cael eu cyflwyno i'n helpu i gyflawni dyletswydd y sector cyhoeddus ac mae'r rhain yn cynnwys llunio Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) a datblygu a chyhoeddi amcanion cydraddoldeb.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn cael ei lunio o dan Is-adran 16(1) Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

Adran 2 - Adolygiad o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Amcanion Cydraddoldeb

Dechreuodd y gwaith o adolygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'n hamcanion cydraddoldeb yn ystod 2014-2015, gan ddeall nad oeddem yn yr un sefyllfa ag ym 2011-2012, pan luniwyd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r amcanion cydraddoldeb gwreiddiol.

Drwy gyfranogiad ein haelodau etholedig, ein swyddogion a'n grwpiau cydraddoldeb lleol, a gweithio'n agos gyda hwy, nodom fod yr holl amcanion yn berthnasol o hyd, ond bod angen addasu'r camau gweithredu i gyflawni pob un er mwyn adlewyrchu'r cynnydd a wnaed eisoes, anghenion newidiol pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig a'r gwaith a oedd eisoes yn cael ei wneud, yn ogystal â'r hinsawdd ariannol heriol.

Roedd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol diwygiedig, gan gynnwys yr amcanion cydraddoldeb diwygiedig, yn amodol ar gyfnod o ymgynghori â'r cyhoedd yn ystod haf 2015, a derbyniwyd ymatebion gan unigolion, y Cyngor Pobl Hŷn a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru. Awgrymwyd nifer o sylwadau a champau gweithredu, a gafodd eu cynnwys lle y bo'n briodol. Lle nad oedd hyn yn bosib, rydym yn hyderus bod y sylwadau/pryderon yn cael eu hystyried drwy strategaethau a chynlluniau amrywiol y cyngor, e.e. y Cynllun Gwella Corfforaethol, neu drwy gynbig ffyrdd eraill o fynd i'r afael â phryderon, e.e. cyfarfodydd rhwng swyddogion amrywiol a'r Cyngor Pobl Hŷn i amlygu gwaith sy'n cael ei wneud yn y meysydd hyn.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, diwygiwyd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a chafodd camau gweithredu ychwanegol eu cynnwys dan rai amcanion. Cytunodd Bwrdd Polisi ac Adnoddau'r Cabinet ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol diwygiedig ar 3 Medi 2015, ac fe'i cymeradwywyd ar 14 Hydref 2015 gan y cyngor.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cydnabod ein bod yn gweithio drwy newidiadau mawr er mwyn ymateb i'r hinsawdd ariannol anodd barhaus. Mae'r pwyslais a roddir ar welliannau pellach i asesiadau effaith cydraddoldeb, gwybodaeth gyhoeddus a chynnwys yn rhan o'n hymateb i'r heriau ariannol rydym yn eu hwynebu ac mae'n canolbwyntio ar weithio'n galed i ddeall goblygiadau posib torri, lleihau a newid gwasanaethau, yn enwedig ar grwpiau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig.

Adran 3 - Cynnydd yn erbyn pob un o'n hamcanion cydraddoldeb

Amcan Cydraddoldeb 1 - Mynd i'r afael ag aflonyddu, gwahaniaethu a bygythiadau eraill i ddiogelwch personol a brofir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig

Crynodeb cyffredinol o'n cynnydd

Cynhaliwyd nifer o sesiynau hyfforddiant yn ystod y cyfnod, gan arwain at fwy o ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o achosion o droseddau casineb, a chydabyddiaeth ohonynt. Ynghyd â phartneriaid lleol, cefnogom Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb ym mis Hydref 2015 lle datblygodd grŵp amlasiantaeth ddigwyddiadau calendr a gynhaliwyd ar draws Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe.

Gan weithio gyda'r Cydlynnydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol, dechreuom ddatblygu cynllun gweithredu i fwrw ymlaen â'n gwaith ar fynd i'r afael â throseddau casineb. Rhagwelir y bydd y cynllun gweithredu'n cael ei gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2017.

Mae Heddlu De Cymru wedi adolygu'r weithdrefn ar gyfer adrodd am achosion o droseddau casineb, gan wneud newidiadau i'r ffordd y maent yn cofnodi digwyddiadau ac yn ymateb iddynt. Bydd y trefniadau hyn yn sicrhau y caiff anghenion yr unigolyn eu diwallu a'u monitro drwy gynllun gweithredu unigol. Yn ystod y flwyddyn, bu newidiadau hefyd i sut diffinnir 'ad-ddioddefwr ac 'ad-droseddwr', gan arwain at newid y cyfnod adrodd o 3 mis i 12 mis.

Dros y flwyddyn mae nifer yr achosion o drais yn y cartref wedi cynyddu 29.6% ers 2014-2015. Mae cynnydd yn nifer y dioddefwyr risg uchel sydd wedi'u hatgyfeirio at yr Ymgynghorydd Annibynnol Trais yn y Cartref yn adlewyrchu hyn. Bu cynnydd o 265 yn 2014-2015 i 344 yn 2015-2016 a chynyddodd nifer y bobl a atgyfeiriwyd i'r Gynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth (MARAC) o 336 yn 2014-2015 i 370 yn 2015-2016.

Rydym wedi parhau i weithio gyda phartneriaid ar amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys Wythnos y Rhuban Gwyn, digwyddiadau cynnwys a hyfforddiant gyda'r cyhoedd a grwpiau amrywiol, a'r Criw Croch gyda disgyblion Blwyddyn 6. Rydym wedi cefnogi'r siop dan yr unto ar gyfer cam-drin yn y cartref, sy'n cynnig cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth gan weithwyr arbenigol i helpu unrhyw un y mae cam-drin yn y cartref neu drais rhywiol yn effeithio arno neu wedi effeithio arno. Atgyfeiriwyd 72 o achosion i'r siop dan yr unto ar gyfer cam-drin yn y cartref yn ystod y cyfnod rhwng mis Gorffennaf 2015 a mis Mawrth 2016.

1. Cynyddu ymwybyddiaeth o droseddau casineb a rhoi gwybod amdanynt

Yn ystod 2015/2016 dywedom y byddem yn gwneud y canlynol:

- Llunio a chyflwyno rhaglen o gynnwys y cyhoedd i atal troseddau casineb a chynyddu ymwybyddiaeth ohonynt, a chynyddu nifer y troseddau casineb yr adroddir wrth yr heddlu amdanynt.
- Adolygu canlyniadau adrodd am droseddau casineb a nodi a ellir cymryd camau i atal digwyddiadau o'r fath neu ddarparu ymatebion mwy effeithiol.
- Cynnwys troseddau casineb fel eitem sefydlog ar yr agenda ar gyfer pob cyfarfod o'r grwpiau cydraddoldeb rydym yn ymgysylltu â hwy er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth ohonynt ac annog adrodd amdanynt.

Beth wnaethom ni?

- Mae'r Tîm Diogelwch Cymunedol wrthi'n sefydlu Grŵp Gweithredu Lleol i lunio a chyflwyno cynllun gweithredu i sicrhau y cyflwynir neges gyson ar draws Castell-nedd Port Talbot. Bydd hwn yn sicrhau y cyflwynir hyfforddiant o safon a bydd yn annog pobl i adrodd am droseddau casineb.
- Ers mis Hydref 2015, mae'r Tîm Diogelwch Cymunedol wedi cynnal 64 o ddiwrnodau cynnwys, gan gyrraedd dros 11,500 o aelodau'r cyhoedd. Nod penodol rhai o'r digwyddiadau hyn oedd cyflwyno negeseuon gwrthwynebu troseddau casineb, gyda gwybodaeth a chynghor i ddioddefwyr hefyd ar gael yn y digwyddiadau.
- Cyflwynwyd negeseuon gwrthwynebu troseddau casineb drwy'r cyfryngau cymdeithasol a chyrraeddodd un neges dros 1,000 o aelodau'r cyhoedd.
- Cynhaliwyd pedair sesiwn hyfforddiant yn ystod y cyfnod a hyfforddwyd 68 o aelodau staff CNPT.
- Ynghyd â phartneriaid lleol, cefnogom Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb ym mis Hydref 2015 lle datblygodd grŵp amlasiantaeth ddigwyddiadau calendr a gynhaliwyd ar draws Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.
- Mae Heddlu De Cymru wedi adolygu'r weithdrefn ar gyfer adrodd am achosion o droseddau casineb, gan wneud newidiadau i'r ffordd y maent yn cofnodi digwyddiadau ac yn ymateb iddynt. Mae'r trefniadau hyn yn

sicrhau y caiff anghenion yr unigolyn eu diwallu a'u monitro drwy gynllun gweithredu unigol.

- Yn ystod 2015-2016, cofnodwyd 102 o droseddau casineb, a bu cynnydd ym mhob math: anabledd, hil, crefydd, tueddfryd rhywiol a phobl drawsrywiol.
- Bu troseddau casineb yn rhan o'r trafodaethau ehangach mewn nifer o gyfarfodydd y Fforwm Lleiafrifoedd Ethnig a Du (BME) a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod.
- Rhagwelir y bydd hyrwyddo cydlyniant cymunedol ymhlith a rhwng cymunedau lleol yn rhan o rôl y Gweithiwr Datblygu Cymunedol arfaethedig i gefnogi'r Fforwm BME.

2. Cryfhau gwaith partneriaeth i fynd i'r afael â cham-drin yn y cartref a sefydlu dulliau amlasiantaeth i gefnogi pobl mewn perygl o gael eu denu i droseddau difrifol a throseddu cyfundrefnol

Yn ystod 2015/2016 dywedom y byddem yn gwneud y canlynol:

- Parhau i herio'r syniad bod cam-drin yn y cartref yn dderbyniol drwy amrywiaeth o ymgyrchoedd cyfathrebu wedi'u targedu, digwyddiadau hyfforddi a chynadleddau.
- Rheoli proses y Gynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth (MARAC) a'r Gwasanaeth Eiriolwr Annibynnol Trais yn y Cartref.
- Cefnogi partneriaid lleol wrth iddynt barhau i gyflwyno pecynnau a phrosiectau addysg mewn ysgolion.
- Rheoli'r siop dan yr unto ar gyfer cam-drin yn y cartref a datblygu cynllun busnes ar gyfer ei dyfodol tymor hir.
- Creu strategaeth cam-drin yn y cartref ar draws y fwrdeistref sirol a fydd yn cynnwys camau gweithredu i ymateb i'r darpariaethau yn Neddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.
- Sefydlu Panel Sianelau Lleol i gyflawni dyletswyddau'r cyngor o dan y Ddeddf Gwrth-Derfysgaeth a Diogelwch.
- Cymryd rhan yn y Bwrdd CONTEST Rhanbarthol.

Beth wnaethom ni?

- Cynhaliodd y Tîm Diogelwch Cymunedol 64 o ddiwrnodau cynnwys, gan gyrraedd dros 11,500 o aelodau'r cyhoedd. Nod penodol rhai o'r digwyddiadau hyn oedd cyflwyno negeseuon am droseddau casineb, ond roedd gwybodaeth a chyingor i ddioddefwyr hefyd ar gael yn yr holl ddigwyddiadau.
- Cyflwynir negeseuon am gam-drin yn y cartref drwy gyfryngau cymdeithasol a chyrraeddodd ymgyrch Rhuban Gwyn Castell-nedd Port Talbot Mwy Diogel a'r fenter 'Speak Out' ym mis Hydref 2015 dros 5,500 o aelodau'r cyhoedd.
- Mae'n hadran hyfforddiant a'r Cydlynnydd Trais yn y Cartref wrthi'n cynllunio rhaglen hyfforddiant, yn unol â Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol Llywodraeth Cymru.
- Yn ystod 2015-2016, clywodd MARAC 370 o achosion risg 'uchel iawn' ac 'uchel' o drais yn y cartref, 20.9% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae nifer yr achosion sydd wedi digwydd mwy nag unwaith wedi lleihau oddeutu 3.5% yn ystod yr un cyfnod, gyda chynnydd cyson o ran y nifer a atgyfeirir gan asiantaethau partner; mae Safe Lives yn gweld hyn fel arwydd bod MARAC yn gryf a bod y trefniadau gwaith partneriaeth yn dda.
- Yn 2015-2016, bu 1.6 Ymgynghorydd Annibynnol Trais yn y Cartref cyfwerth amser llawn yn gweithio ar achosion risg uchel o gam-drin yn y cartref; cynyddodd nifer yr atgyfeiriadau o 265 yn 2014-2015 i 344 yn 2015-2016.
- Mae'r Tîm Diogelwch Cymunedol yn parhau i weithio gyda phartneriaid mewn ysgolion ac ar ddigwyddiadau penodol. Er enghraifft, bu digwyddiad y Criw Coch yn gyfle i'r tîm gyfleu neges bwysig i oddeutu 1,600 o ddisgyblion Blwyddyn 6 o ran pwysigrwydd perthnasoedd iach.
- Roedd digwyddiadau amrywiol i gynnwys y cyhoedd a gynhaliwyd yn ystod Wythnos y Rhuban Gwyn wedi galluogi'r tîm i ymgysylltu â thros 700 o bobl mewn digwyddiadau amrywiol. Gwelwyd deunydd Facebook a oedd yn ymwneud â'r Rhuban Gwyn 9,000 o weithiau.
- Cwblhaodd ymgynghorydd annibynnol adolygiad o'r siop dan yr unto ar gyfer cam-drin yn y cartref ac mae'r

cynllun gweithredu'n cael ei fonitro gan y Grŵp Partneriaeth Cam-drin yn y Cartref. Mae Rheolwr Datblygu'r Siop dan yr Unto wedi bod yn ei swydd ers mis Gorffennaf 2015.

- Cynhaliwyd adolygiad annibynnol o'r gwasanaeth cam-drin y cartref yng Nghastell-nedd Port Talbot. Drwy'r adolygiad hwn, datblygir strategaeth leol mewn partneriaeth â PABM a rhoddir cynllun gweithredu ar waith.
- Gohiriwyd yr adolygiad o gam-drin yn y cartref, ond mae bellach wedi dechrau; fe'i cynhelir gan ymgynghorydd annibynnol a disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Mai 2016. Bydd canlyniadau ac argymhellion yr adolygiad yn sail i'r strategaeth cam-drin yn y cartref leol sy'n ofynnol o dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 a'r broses o ailstrwythuro'r Grŵp Strategol Cam-drin yn y Cartref. Bydd yr adolygiad yn nodi bylchau yn y gwasanaeth lleol, nodi'r swm sy'n cael ei wario ar y gwasanaeth a phenderfynu a yw anghenion dioddefwyr yn cael eu diwallu.
- Sefydlwyd Panel Sianelau Castell-nedd Port Talbot yn unol â Deddf Gwrth-Derfysgaeth a Diogelwch 2015. Nodwyd Cadeirydd y panel, a fydd yn cwrdd am y tro cyntaf yn ystod yr haf. Mae holl aelodau'r panel wedi cael hyfforddiant WRAP (Gweithdy i Gynyddu Ymwybyddiaeth o Prevent) 3, sydd wedi'i gymeradwyo gan y Swyddfa Gartref. Cyflwynir yr hyfforddiant hwn i staff a phartneriaid yng Nghastell-nedd Port Talbot.
- Mae Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Strategaethau Corfforaethol wedi cadeirio'r Bwrdd CONTEST ers naw mis. Dyma'r datblygiadau allweddol dros y cyfnod hwn:
 - Bydd cadeiryddion rhanbarthol yn aelodau o'r Bwrdd CONTEST Cenedlaethol er mwyn sicrhau dulliau cyfathrebu clir rhwng y strwythur rhanbarthol a chenedlaethol;
 - Cryfhawyd prosesau ar gyfer rhannu gwybodaeth a chytuno ar gamau gweithredu i ymateb i wybodaeth;
 - Cwblhawyd asesiad o gydymffurfio â dyletswyddau a chyfrifoldebau newydd a nodir yn Neddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015;
 - Mae cysylltiadau cryfach rhwng paneli sianelau lleol a'r bwrdd rhanbarthol; ac
 - Mae cysylltiadau cryfach rhwng y bwrdd rhanbarthol, y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a threfniadau diogelu.
- Mae'r diffiniad 'o ad-ddioddefwr' ac 'ad-droseddwr' wedi newid yn ystod y cyfnod, gan arwain at newid y cyfnod adrodd, o 3 i 12 mis.

- Yn ystod 2015-2016, bu cynnydd yn nifer yr achosion o drais yn erbyn pobl, gyda 39.3% yn y cartref. Dyma 29.6% yn fwy na'r cyfnod 2014-2015.
- Yn ystod 2015-2016, rhoddodd llochesi yng Nghastell-nedd Port Talbot lety dros dro i 173 o fenywod a 103 o blant dibynnol ac roedd 877 o bobl dros 16 oed wedi defnyddio gwasanaethau a ddarperir gan asiantaethau Calan DVS, Cymorth i Fenywod Port Talbot ac Afan a Hafan Cymru.

Amcan Cydraddoldeb 2 - Gwella mynediad i wybodaeth drwy ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig lle bo'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill

Crynodeb cyffredinol o'n cynnydd

Mabwysiadodd y cyngor y Strategaeth Digidol drwy Ddewis ym mis Tachwedd 2015. Mae'r strategaeth hon yn ceisio sicrhau bod gan ddinasyddion fynediad i'r cyfrwng mwyaf priodol i'w hanghenion, ehangu amrywiaeth y gwasanaethau sydd ar gael ar-lein yn sylweddol, a chynyddu defnydd o'r opsiynau ar-lein gan ddinasyddion.

Roedd ein sgôr gwefan SOCITM gyffredinol wedi gwella o un seren i ddwy seren erbyn 31 Mawrth 2016, ond roedd yn is na'r targed ar gyfer y flwyddyn, sef sgôr 3 seren. Mae SOCITM yn gymdeithas ar gyfer arbenigwyr TG yn y sector cyhoeddus.

Fel rhan o'n gwaith i wella'r cynnwys a'r wybodaeth sydd ar gael ar ein gwefan, rydym wedi cael gwared ar oddeutu 1,200 o hen we-dudalennau a diweddarau'r 1,800 o dudalennau sydd ar ôl, yn ogystal â sicrhau eu bod ar gael yn Gymraeg.

Ar 31 Mawrth 2016, roedd 88% o'n gwe-dudalennau ar gael yn Gymraeg, ac mae 9% ychwanegol yn aros i gael eu cyfieithu gan gyfieithwyr allanol. Dyma welliant pwysig o ystyried y bu 39% yn unig o'n gwe-dudalennau'n hollol ddwyieithog ym mis Awst 2014.

Rydym wedi datblygu hwb perfformiad ar ein mewnrwyd sy'n cynnwys gwybodaeth am reoli perfformiad, cynllunio

busnes, risg, llywodraethu, cydraddoldeb, a rheoli rhaglenni a phrosiectau, ac arweiniad arnynt. Mae'r tudalennau cydraddoldeb yn yr hwb yn cynnwys gwybodaeth a deunydd cefnogi i gynorthwyo staff o ran cydraddoldeb a Safonau'r Gymraeg.

1. Gwella cynnwys gwefan y cyngor

Yn ystod 2015/2016 dywedom y byddem yn gwneud y canlynol:

- Rhoi Polisi Dyluniad Digidol ar waith.
- Cwblhau gwaith i ddiweddarau cynnwys y wefan
- Sicrhau bod y wefan yn cydymffurfio â gofynion Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor/Safonau Cymru
- Gyda chymorth Grŵp Gweithredu'r Rhwydwaith Anabledd, y Cyngor Ieuenctid, y Cyngor Pobl Hŷn, Fforwm Lleiafrifoedd Ethnig a Du, Fforwm Lesbiaidd Hoyw Deurywiol a Thrawsrywiol, rhoi dulliau profi defnyddwyr ar waith wrth ddatblygu gwefannau.
- Datblygu catalog ar-lein o wybodaeth gyhoeddus
- Sicrhau bod datblygiadau'r we yn "addas ar gyfer dyfeisiau symudol"
- Sefydlu 'Amcan' y porth ymgynghori corfforaethol fel gofyniad ar gyfer yr holl ymarferion ymgynghori â'r cyhoedd

Beth wnaethom ni?

- Mabwysiadwyd y strategaeth newid sianeli 'Digidol drwy Ddewis' gan y cyngor ar 25 Tachwedd 2015. Mae'r strategaeth yn ceisio sicrhau bod gan ddinasyddion fynediad i'r cyfrwng mwyaf priodol i'w hanghenion, ehangu amrywiaeth y gwasanaethau sydd ar gael ar-lein yn sylweddol, a chynyddu defnydd o'r opsiynau ar-lein.
- Lansiodd Llywodraeth Cymru Siarter Cynhwysiant Digidol ym mis Chwefror 2016 sy'n helpu sefydliadau i ddangos sut maent yn helpu pobl sydd wedi'u heithrio'n ddigidol, yn enwedig pobl hŷn, pobl ag anableddau, pobl ddi-waith, tenantiaid tai cymdeithasol a theuluoedd mewn tlodi i fwynhau manteision y rhyngwyd. Rydym

yn gweithio gyda sefydliadau lleol i gofrestru ar gyfer y siarter er mwyn helpu i atgyfnerthu ein gwaith yn y maes hwn, yn ogystal â hyrwyddo pwysigrwydd helpu mwy o bobl i fynd ar-lein, ymhlith ein partneriaid a'r gymuned ehangach.

- Ar 31 Mawrth 2016, roedd 88% o'n gwe-dudalennau ar gael yn Gymraeg, ac mae 9% ychwanegol yn aros i gael eu cyfieithu gan gyfieithwyr allanol. Dyma welliant pwysig o ystyried y bu 39% yn unig o'n gwe-dudalennau'n hollol ddwyieithog ym mis Awst 2014.
- Mae catalog gwybodaeth gyhoeddus wedi'i ddatblygu a'i lenwi. Mae system brawf wedi'i sefydlu sy'n cael ei phrofi; bydd yn symud i wefan fyw yn ystod haf 2016.
- Mae ein gwefan wedi'i hail-ddylunio ac mae'r wefan newydd sbon yn gwbl weithredol fel y gellir ei defnyddio ar bob dyfais symudol heb golli golwg gyffredinol y wefan.
- Parhaom i weithio ar wella cynnwys ein gwefan, gan sicrhau ei bod yn gyfoes ac yn haws ei defnyddio (e.e. mynediad drwy ddyfeisiau symudol). Dywedodd 91% o gwsmeriaid ar ein gwefan eu bod yn fodlon iawn/fodlon neu'n meddwl bod ein gwefan yn 'iawn' o ran yr olwg gyffredinol a'r gwelliannau a wnaed i'r gwasanaethau sydd ar gael ar-lein. Dywedodd 83% o gwsmeriaid ar ein gwefan eu bod yn fodlon iawn/fodlon neu'n meddwl bod ein gwefan yn 'iawn' o ran mynd o fan i fan arni. Dywedodd 78% o gwsmeriaid ar ein gwefan eu bod yn fodlon iawn/fodlon neu'n meddwl bod ein gwefan yn 'iawn' o ran rhwyddineb dod o hyd i wybodaeth a gwasanaethau.
- Ein sgôr gwefan SOCITM gyffredinol ar 31 Mawrth 2016 oedd 2 seren, a oedd yn is na'n targed ar gyfer y flwyddyn, sef 3 seren. Dylai gwelliannau ychwanegol i'n gwefan yn ystod 2016-2017 arwain at gynnydd yn ein sgôr seren a ddisgwylir ym mis Mawrth 2017.
- Cynyddodd nifer y gweithrediadau ar-lein yn ystod y flwyddyn o bron 19,000 yn 2014-2015 i 32,000 o weithrediadau yn ystod 2015-2016. Cyflawnwyd y cynnydd hwn drwy ailddylunio ein gwefan, gan sicrhau bod mynediad i wasanaethau ar-lein yn haws i'r cyhoedd, cynyddu nifer y gwasanaethau sydd ar gael ar-lein, a marchnata a hysbysebu ein gwasanaethau ar-lein yn fwy.
- Roedd mwy o gwsmeriaid wedi defnyddio sianeli digidol i gwblhau gweithrediadau megis archebu cyfarpar ailgylchu neu ofyn am drwyddedau faniau. Cynyddodd nifer y bobl a oedd yn defnyddio gwasanaethau ar-lein o 39% yn 2014 -2015 i 57% yn 2015-2016 (ar gyfer y gwasanaethau hynny sy'n llwyr ar-lein).

- Rydym yn parhau i hyrwyddo defnydd o'n porth ymgynghori â'r cyhoedd, 'Objective', ar draws pob maes gwasanaeth drwy ein cyfryngau cyfathrebu arferol, e.e. y cylchlythyr staff, sesiynau briffio staff, y fewnwyd, etc. Mae 'Objective' wedi'i ddefnyddio ar draws pob maes gwasanaeth ac yn parhau i fod y prif ddull ymgynghori ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol.

2. Cynyddu hygyrchedd gwybodaeth/dogfennaeth

Yn ystod 2015/2016 dywedom y byddem yn gwneud y canlynol:

- Gweithio gyda'r grwpiau cydraddoldeb i adolygu'r canllawiau ar wybodaeth hygyrch.
- Hybu defnyddio canllawiau ar wybodaeth hygyrch
- Sicrhau cydymffurfio parhaus â Hunaniaeth Gorfforaethol y cyngor i sicrhau bod y fformat, ffont priodol, etc, yn cael eu defnyddio.
- Sicrhau bod iaith gynhwysol sy'n ddiwylliannol briodol yn cael ei defnyddio mewn dogfennau gwybodaeth i'r cyhoedd
- Sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei hystyried ar gam dylunio a datblygu unrhyw ddogfennau gwybodaeth gyhoeddus/maes gwasanaeth
- Hyrwyddo lluniau o bobl â nodweddion gwarchoddedig mewn gwybodaeth gyhoeddus a ddarperir gan y cyngor.

Beth wnaethom ni?

- Diweddarwyd ein harweinlyfrau 'Sut i ...', o ran hygyrchedd yn bennaf, ym mis Ionawr 2016, gan ddefnyddio adborth a ddarparwyd gan grwpiau cydraddoldeb lleol yn ystod cyfarfodydd blaenorol, ymgynghoriadau a thrafodaethau anffurfiol, yn ogystal ag ymchwil bwrdd gwaith i nodi arfer da gan sefydliadau eraill.
- Yn ystod 2015-2016, ni allem wneud cymaint o gynnydd ag a ragwelwyd wrth ddiweddarau'r arweinlyfrau 'Sut i ...' Fodd bynnag, caiff yr arweinlyfrau eu hadolygu a'u diweddarau dros y flwyddyn nesaf i adlewyrchu unrhyw ddatblygiadau yn y pynciau penodol, gofynion Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i ni, a hyrwyddo cynwysoldeb, drwy iaith a delweddau, yn ogystal â defnyddio delweddau cadarnhaol o bobl â nodweddion

gwarchoddedig.

- Mae pynciau'r arweinlyfrau 'Sut i ...' yn amrywio o drefnu ffotograffydd i drefnu cyfarfod a llunio dogfennaeth hygyrch i sefydlu tudalen ar y cyfryngau cymdeithasol a byddwn yn parhau i hyrwyddo'r arweinlyfrau drwy ein dulliau cyfathrebu mewnol, e.e. y cylchgrawn staff 'In the Loop' a newyddion staff ar y fewnrwyd.
- Mae arweiniad i staff ar gwblhau'r asesiadau effaith cydraddoldeb, deunyddiau eraill sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb a gofynion Safonau'r Gymraeg ar gael ar yr hwb perfformiad ar ein mewnwyd. Ers bod ar waith ddiwedd mis Hydref 2015, bu 5,207 o ymweliadau â'r hwb a 404 o ymweliadau â'r tudalennau cydraddoldeb.
- Mae templedi penawdau llythyrau wedi'u llunio a'u dosbarthu i swyddogion perthnasol er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y cyngor. Mae'r templedi hefyd yn cynnwys testun safonol yn Gymraeg yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i ni.

Amcan Cydraddoldeb 3 - Gwella mynediad i wasanaethau drwy ddiwallu anghenion aelodau grwpiau gwarchoddedig lle y bo'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill

Crynodeb cyffredinol o'n cynnydd

Mae gwaith dadansoddi i lywio gwasanaethau o ran canfod unrhyw fylchau yn y defnydd ohonynt, a mynd i'r afael ag unrhyw newidiadau priodol i wasanaethau'n barhaus; mae grŵp mewnol wedi'i ailsefydlu er mwyn sicrhau y rhoddir gwybod am broblemau a nodir ac y cymerir camau gweithredu priodol.

Cysylltir datblygiad ein systemau monitro a chofnodi â'r System Gwybodaeth am Ofal yn y Gymuned Cymru Gyfan, sy'n safoni systemau TG a chofnodi ar draws Cymru; bydd y system hon yn cynnwys gofynion casglu data ar gyfer y grwpiau gwarchoddedig. Cyflwynir y system fesul cam; rydym yn aros am gadarnhad o'i rhoi ar waith.

Mae'r swyddi Swyddog Cyfranogiad a Chynnwys y Gwasanaethau Plant a Swyddog Cynllunio a Chynnwys y Gwasanaethau i Oedolion wedi bod yn wag dros y misoedd diwethaf. Penodir pobl i'r swyddi hyn cyn bo hir a byddant yn cynorthwyo wrth gynnwys grwpiau penodol.

Gwella mynediad i ddarpariaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn ystod 2015/2016 dywedom y byddem yn gwneud y canlynol:

- Dadansoddi proffil plant ar y gofrestr amddiffyn plant a phlant sy'n derbyn gofal a phroffil gofalwyr maeth presennol i lywio rhaglen recriwtio a chadw.
- Dadansoddi proffil oedolion a atgyfeirir i'r gwasanaethau cymdeithasol i dderbyn gwasanaeth a'r rhai y bernir eu bod yn gymwys i dderbyn gwasanaethau i lywio trefniadau comisiynu yn y dyfodol.
- Dadansoddi proffil defnyddwyr gwasanaeth presennol i bennu unrhyw fylchau yn nifer y gwasanaethau a

ddefnyddir gan grwpiau penodol.

- Cynnwys grwpiau penodol i ystyried rhwystrau posib sy'n atal pobl rhag defnyddio gwasanaethau.
- Dadansoddi'r data i lywio newidiadau priodol i wasanaethau er mwyn diwallu anghenion grwpiau penodol.
- Cynnwys rhwydweithiau presennol wrth ddatblygu gwybodaeth a chyngor wrth roi'r Ddeddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant ar waith.

Beth wnaethom ni?

- Cymeradwywyd y Strategaeth Recriwtio Gofalwyr Maeth gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ddiweddar ac mae bellach yn y broses o gael ei rhoi ar waith. Llywiwyd y strategaeth gan broffiliau plant sy'n derbyn gofal a gofalwyr maeth.
- Ein nod oedd recriwtio 14 o ofalwyr maeth newydd; cymeradwywyd 17 o aelwydydd maethu newydd gennym.
- Dan ein system fonitro bresennol, rydym yn casglu data ar chwech o'r naw grŵp gwarchoddedig. Rydym yn gweithio i sicrhau bod ein holl systemau TG yn gallu cofnodi'r data hwn er mwyn ein galluogi i gynnwys yr wybodaeth hon ym mhob adroddiad perthnasol.
- Cysylltir datblygiad ein systemau monitro a chofnodi â'r System Gwybodaeth am Ofal yn y Gymuned Cymru Gyfan, sy'n safoni systemau TG a chofnodi ar draws Cymru; bydd y system hon yn cynnwys gofynion casglu data ar gyfer y grwpiau gwarchoddedig. Cyflwynir y system fesul cam; mae CNPT yn aros am gadarnhad o'i rhoi ar waith. Pan fydd ar waith, bydd hon yn cyfrannu at wella ein dealltwriaeth o anghenion a gofynion ein defnyddwyr gwasanaeth.
- Ar hyn o bryd, mae ein deunydd hyrwyddo'n annog recriwtio gofalwyr maeth o amrywiaeth eang o grwpiau. Fodd bynnag, ar ôl dadansoddi proffiliau defnyddwyr gwasanaeth, adolygir pob deunydd hyrwyddo i sicrhau ei fod yn addas, yn berthnasol ac yn gynhwysol; mae deunydd marchnata eisoes yn cael ei adolygu yn unol â'r Strategaeth Recriwtio a Chadw Gofalwyr Maeth newydd.
- Sefydlwyd grŵp amlasiantaeth i fodloni gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. Mae cynllun datblygu ar waith i ddatblygu cyfeiriadur adnoddau cymunedol dibynadwy a hygyrch a gefnogir hefyd

gan gynllun cyfathrebu a chynnwys. Rhoddir gwerthusiad o opsiynau ar y feddalwedd sydd ar gael ar y ffordd ymlaen gerbron aelodau yn hydref 2016.

Amcan Cydraddoldeb 4 - Monitro gwybodaeth a data'n effeithiol er mwyn nodi anfanteision a brofir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig

Crynodeb cyffredinol o'n cynnydd

Rydym wedi gwneud cynnydd da wrth ymgymryd ag asesiadau effaith cydraddoldeb fel rhan o'r broses o ddatblygu polisiau a gwasanaethau. Drwy archwilio sampl o asesiadau effaith cydraddoldeb, rydym wedi gallu canolbwyntio datblygiad parhaus y broses i adlewyrchu argymhellion yr archwiliad o asesiadau effaith cydraddoldeb, a gynhaliwyd ym mis Hydref 2015.

Un o'n prif gamau gweithredu ar gyfer y cyfnod oedd cefnogi datblygiad a chynladwyedd y Fforwm BME. Gan weithio gyda'r fforwm a Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot, rydym wedi gallu cyrraedd sefyllfa lle hysbysebwyd y swydd gweithiwr datblygu yn ystod haf 2016, gyda'r ymgeisydd llwyddiannus yn dechrau ym mis Hydref 2016.

Nid ydym wedi gallu gwneud cymaint o gynnydd ag y byddem wedi dymuno wrth fonitro data staff. Fodd bynnag, nid yw amrywiaeth yr wybodaeth a gesglir yn cynnwys yr holl nodweddion gwarchoddedig a byddai angen gwneud llawer o waith i fynd i'r afael â hyn ar adeg pan fo adnoddau'n lleihau yn y tîm Adnoddau Dynol ac ar draws y cyngor.

Datblygu systemau monitro cadarn o fewn gwasanaethau

Yn ystod 2015/2016 dywedom y byddem yn gwneud y canlynol:

- Ymgymryd ag asesiadau effaith cydraddoldeb i nodi:
 - Meysydd i'w gwella
 - Arfer da
 - Meysydd lle mae angen hyfforddiant ychwanegol
- Defnyddio'r gwersi a ddysgwyd o'r broses Asesiad Effaith Cydraddoldeb, y digwyddiad cynllunio cyllideb a

digwyddiadau cynnwys perthnasol eraill i nodi bylchau mewn gwybodaeth am/dealltwriaeth o'r nodweddion gwarchoddedig amrywiol.

- Ymgymryd â gwaith datblygu gyda grwpiau presennol er mwyn rhoi sylfaen fwy cadarn, e.e. Fforwm Lleiafrifoedd Ethnig a Du a Grŵp Gweithredu'r Rhwydwaith Anabledd.
- Sicrhau bod data staff a fonitryd yn cael ei gasglu, ei fewnbynnu a'i ddiweddarau drwy'r system VISION yn rheolaidd yn ystod y cyfnod y cyflogir staff â'r cyngor e.e.
 - Ymuno â'r cyngor
 - Newid swydd o fewn y cyngor
- Darparu arweiniad a chyngor i swyddogion drwy roi adborth ar ymarferion ymgynghori.
- Adborth ar ymarferion ymgynghori i fod ar gael drwy'r amcan.

Beth wnaethom ni?

- Ymgymeryd ag archwiliad ar 24 o asesiadau effaith cydraddoldeb a gwblhawyd. Nododd adroddiad yr archwiliad, a luniwyd ym mis Hydref 2015, feysydd i'w gwella, arfer da a meysydd lle roedd angen mwy o hyfforddiant. O'r saith argymhelliad, a oedd yn cynnwys gwella casglu data, hyfforddiant â mwy o ffocws, adolygu'r ffurflen asesu a'r arweiniad cysylltiedig, yn ogystal ag ystyried cynyddu trefniadau craffu; rydym wedi cyflawni tri ohonynt ac mae gwaith yn parhau i gyflawni'r pedwar arall.
- Er y bu oedi wrth lwyr nodi bylchau o ran gwybodaeth am y nodweddion gwarchoddedig amrywiol a/neu ddealltwriaeth ohonynt, rydym wedi gallu gwneud rhai gwelliannau i'n systemau casglu data, yn ogystal â sicrhau bod meysydd gwasanaeth yn fwy ymwybodol o'r grwpiau cydraddoldeb lleol amrywiol sy'n gallu rhoi cymorth.
- Mae gwaith yn parhau i adolygu'r ffurflenni Asesiad Effaith Cydraddoldeb a'r arweiniad cysylltiedig, gan ystyried gwaith perthnasol arall, e.e. gofynion Safonau'r Gymraeg, a chwblheir hwn yn ystod 2016-2017.
- Rydym wedi gweithio gyda'r Fforwm Lleiafrifoedd Ethnig a Du a Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot er mwyn nodi gofynion cefnogi a llenwi'r swydd gweithiwr datblygu i helpu i gefnogi a datblygu'r fforwm. Nodwyd swydd gweithiwr datblygu fel cefnogaeth briodol, felly dechreuodd proses recriwtio a

phenodwyd rhywun ym mis Hydref 2016.

- Er y bu'r trefniadau ar waith ers sawl blwyddyn i gael data 'cydraddoldeb' ar adeg recriwtio (gan gynnwys penodiadau newydd i'r cyngor a rhai mewnol), nid yw'r amrywiaeth o wybodaeth yn cynnwys yr holl nodweddion gwarchoddedig. Mae angen gwneud llawer o waith i fynd i'r afael â hyn ar adeg pan fo adnoddau'n lleihau yn y tîm AD ac ar draws y cyngor.
- Nodwyd ateb posib, sef dylai pob gweithiwr ddiweddarau ei gofnodion unigol drwy'r porth gweithwyr. Ar hyn o bryd, mae hwn yn cael ei archwilio er mwyn i fwrdd y rhaglen Digidol drwy Ddewis ei ystyried.
- Mae meysydd gwasanaeth wedi'u cefnogi wrth ymgymryd ag arferion ymgynghori: ar y cwestiynau, yr arddull a'r cynllun, a'r gofynion deddfwriaethol yn ogystal â phwy y dylid ymgynghori â hwy. Mae adborth yn rhan bwysig o'r broses ymgynghori, felly rhoddir gwybod i'r swyddogion am hwn.
- Yn ogystal, caiff cyngor ar roi adborth i ymgynghoriadau ei gynnwys yn yr arweiniad diwygiedig ar Aseiad Effaith Cydraddoldeb. Gan fod yr adolygiad o'n dulliau ymgynghori wedi dechrau, mae gennym gyfle arall i gynnwys cyngor ar roi adborth.

Amcan Cydraddoldeb 5 - Cyflwyno hyfforddiant i staff yn unol â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb

Crynodeb cyffredinol o'n cynnydd

Yn ystod y flwyddyn, mae toriadau cyllidebol wedi effeithio'n fawr ar ein gallu i gyflwyno sesiynau hyfforddiant corfforaethol. Bu'n rhaid lleihau nifer ac amrywiaeth y pynciau y gallem gynnig yn gorfforaethol. Fodd bynnag, rydym wedi ymdrechu i barhau i gyflwyno hyfforddiant ar thema cydraddoldeb pan fo'n bosib, naill ai mewn partneriaeth â chynghorau a sefydliadau eraill neu drwy ddefnyddio ffrydiau cyllidebol eraill.

Gan weithio gyda'r Cydlynnydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol, cyflwynwyd nifer o gyrsiau i gynyddu ymwybyddiaeth o droseddau casineb; mae sesiynau yn yr arfaeth ar gyfer 2016-2017 hefyd.

Gan adeiladu ar hyfforddiant y blynyddoedd blaenorol ac ystyried argymhellion yr archwiliad Asesiad Effaith Cydraddoldeb a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod, rydym wedi darparu hyfforddiant mwy pwrpasol i reolwyr a fyddai'n gyfrifol am ymgymryd â'r asesiadau mwy dadleuol. Yn ogystal, darparwyd sesiynau hyfforddiant mwy penodol pan fo angen.

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi dod yn hollol ymwybodol o'r twf mewn dementia yn y boblogaeth, felly rydym wedi datblygu ymarferion a sesiynau hyfforddiant i helpu i ddarparu gwasanaethau priodol i'r rhai sy'n dioddef o'r cyflwr yn y boblogaeth leol. Rydym wedi datblygu hyfforddiant yn y maes hwn i helpu i gynyddu ymwybyddiaeth ein staff o ddementia a'i effeithiau a helpu i ddarparu gwasanaeth gwell iddynt. Mae 200 o aelodau staff y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi mynd i sesiynau 'Cyflwyniad i Ailystyried Dementia' yn ystod 2015-2016 a gwelwyd y sesiynau fel cwrs hyfforddiant allweddol ar gyfer holl staff rheng flaen y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn ystod 2015/2016 dywedom y byddem yn gwneud y canlynol:

Adolygu hyfforddiant staff yn unol â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb

- Cyflwyno sesiynau hyfforddiant ar amrywiaeth o destunau penodol

Beth wnaethom ni?

- Nid oedd unrhyw gyllid yn ystod 2015-2016 i alluogi sesiynau hyfforddiant sgiliau hanfodol i gael eu cynnig i'r holl staff. Fodd bynnag, rydym yn gweithio gyda Chymdeithas Addysg y Gweithwyr a Chysylltu Dysgwyr sy'n cael cyllid prosiectau drwy Gronfa Ddysgu Undebau Cymru i ddarparu sesiynau ar gyfer staff gofal yn y gymuned.
- Aeth 44 o aelodau staff i sesiynau hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddyslecsia yn ystod y flwyddyn, y rhan fwyaf o feysydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ogystal â chwe aelod o staff Uned Ddiogel Hillside a thri gofalwr maeth.
- Aeth 67 o aelodau staff i sesiynau ymwybyddiaeth o droseddau casineb yn ystod 2015-2016. Bu sefydliadau eraill, gan gynnwys Cartrefi CNPT, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Chalan DVS, hefyd yn bresennol mewn sesiynau.
- Aeth 18 o aelodau staff i ddwy sesiwn ymwybyddiaeth o fasnachu pobl/wrthgaethwasiaeth y llynedd ac mae pum sesiwn arall yn yr arfaeth ar gyfer 2016-2017. Roedd ymateb da gan bobl a oedd yn bresennol; roeddent i gyd yn teimlo bod yr hyfforddiant yn werthfawr ac yn addysgiadol, yn enwedig o ran y mathau gwahanol o fasnachu a byddant yn argymhell yr hyfforddiant yn gryf. Roedd staff addysgu a aeth i'r sesiynau'n awyddus i gael mwy o wybodaeth am ffyrdd o annog dioddefwyr i ddod i'r amlwg, ac offer i wneud hynny, yn ogystal â mwy o adnoddau a gwybodaeth am hyfforddiant ymwybyddiaeth ar gyfer disgyblion.
- Cyflwynwyd 46 o sesiynau ymwybyddiaeth o gamfanteisio'n rhywiol ar blant ar draws Bae'r Gorllewin, a bu 195 o aelodau staff Castell-nedd Port Talbot yn bresennol yn 2015-2016. Trefnir hyfforddiant eto ar gyfer 2016-2017 ac mae 52 o aelodau staff eisoes wedi cadw lle ar sesiynau.
- Yn ystod y cyfnod, daeth naw o aelodau staff i sesiynau ymwybyddiaeth o bobl Roma, a gynhaliwyd mewn

partneriaeth â Dinas a Sir Abertawe.

- Roeddem yn gallu darparu un sesiwn hyfforddiant ymwybyddiaeth o sipsiwn a theithwyr, ym mis Hydref 2015, y daeth 16 o aelodau staff iddi.
- Cyflwynwyd cwrs 'Diogelu Gwerthoedd ac Agweddau' i 26 o ofalwyr maeth yn ystod y cyfnod.
- Cwblhawyd sesiynau Hyfforddi'r Hyfforddwr ar gyfer cyflwyno hyfforddiant WRAP (Gweithdy i Gynyddu Ymwybyddiaeth o Prevent) a bwriedir cynnal sesiynau hyfforddiant WRAP ar gyfer yr holl staff rheng flaen yn ystod 2017.
- Cynhaliwyd sesiynau hyfforddiant ar gyfer yr aelodau staff hynny sy'n gyfrifol am gwblhau asesiadau effaith cydraddoldeb, yn enwedig o ran cynigion cyllidebol. Ar ben y sesiynau hyfforddiant cyffredinol hyn, darparwyd sesiynau mwy pwrpasol, yn ogystal â hyfforddiant penodol un i un ar gyfer staff pan fo angen. Ystyrir hyfforddiant yn y dyfodol yn sgîl argymhellion yr adroddiad archwilio.
- Ym mis Rhagfyr 2015, daeth 16 o aelodau etholedig i sesiwn a roddodd drosolwg o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gan ganolbwyntio'n arbennig ar asesiadau effaith cydraddoldeb. Ystyriwyd yr archwiliad o'r asesiadau effaith cydraddoldeb a gwblhawyd; yn ogystal, archwiliwyd meysydd arfer da/meysydd i'w gwella a rôl yr aelodau etholedig wrth arwain y gwaith o'u datblygu.
- Mae'r Grŵp Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol Penaethiaid Gwasanaeth wedi sicrhau bod staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau unigol a chyfunol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 drwy amrywiaeth o weithgareddau: sesiynau hyfforddiant, sesiynau briffio, erthyglau yn y cylchlythyr staff. Yn ogystal, mae deunyddiau cefnogi wedi'u lanlwytho i'n hwb perfformiad i gynorthwyo staff, gan gynnwys deunydd i helpu i ymgymryd ag asesiadau.
- Cynhaliom ddigwyddiad cynnwys ym mis Mehefin 2015 ar gyfer chwe aelod etholedig sy'n hyrwyddwyr cydraddoldeb, fel rhan o'r broses gynnwys ehangach a gynhaliwyd ar gyfer yr adolygiad o'n hamcanion cydraddoldeb a'r adolygiad o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.
- Rydym yn hollol ymwybodol o'r cynnydd yn nifer y bobl sy'n dioddef o ddementia a'r pwysau cynyddol y gall hwn eu rhoi ar wasanaethau. Oherwydd hyn, rydym wedi datblygu a darparu sesiynau cyflwyniad i ymwybyddiaeth o ddementia ar gyfer 99 o aelodau staff yn ystod y cyfnod. Mae ein Grŵp Iechyd a Lles yn

bwriadu cynnal sesiynau gwybodaeth am Gyfeillion Dementia yn ystod 2016-2017. Darperir yr hyfforddiant hwn gan ddau aelod o'n tîm hyfforddiant a fydd yn mynd i gwrs hyfforddi hyrwyddwyr dementia er mwyn darparu'r hyfforddiant hwn.

- Oherwydd y toriad i'n cyllideb hyfforddiant, nid ydym wedi gallu gwneud cynnydd wrth ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth ddiwylliannol neu hyfforddiant penodol o ran gwahaniaethu ar sail oedran yn ystod y flwyddyn, er bod ymwybyddiaeth o oedran yn rhan o'r hyfforddiant mwy cyffredinol am y Ddeddf Cydraddoldeb. Byddwn yn ystyried y ffordd orau o fodloni ein hymrwymiaidau i ddarparu ymwybyddiaeth ddiwylliannol yn ystod 2016-2017.

Amcan Cydraddoldeb 6: Gwella mynediad i'r amgylchedd drwy ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig lle bo'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill

Crynodeb cyffredinol o'n cynnydd

Mae gwaith wedi parhau i wella hygyrchedd corfforol swyddfeydd dinesig ac adeiladau y mae'r cyngor yn berchen arnynt. Fodd bynnag, mae adolygiad ychwanegol o arwyddion wedi'i ohirio tan i benderfyniad Comisiynydd y Gymraeg ar wrthwynebiad y cyngor i 55 o Safonau'r Gymraeg, sy'n cynnwys y safon o ran arwyddion, ddod i law.

Parhaom â'n gwaith adfywio ar draws y fwrdeistref sirol, gyda phrosiectau megis y maes parcio aml-lawr newydd a'r lle manwerthu yng nghanol tref Castell-nedd, Canolfan Hamdden a Ffitrwydd newydd Aberafan sy'n werth £13.4m ac ailddatblygiad Gorsaf Parcfordd Port Talbot a Llwybr yr Harbwr.

Rydym wedi llwyddo i sicrhau cyllid ac rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol gyda'n partneriaid ar 12 o brosiectau adfywio fel rhan o'r fframwaith 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid'. Gyda chyfranogaeth Grŵp Gweithredu'r Rhwydwaith Anabledd (DNAG) a rhanddeiliaid eraill, rydym wedi gallu gwella hygyrchedd corfforol yr ardal, yn enwedig gydag ailddatblygiad Gorsaf Parcfordd Port Talbot a Llwybr yr Harbwr.

1. Gwella hygyrchedd corfforol i swyddfeydd dinesig ac adeiladau eraill y cyngor ac ynddynt

Yn ystod 2015/2016 dywedom y byddem yn gwneud y canlynol:

- Adolygu arwyddion yn y swyddfeydd dinesig ac adeiladau eraill y cyngor yn unol â BS8300, RNIB
- Adnewyddu arwyddion mewn adeiladau dinesig fel y bo'n briodol.
- Adolygu mynedfeydd ac allanfeydd swyddfeydd dinesig a'u haddasu lle y bo'n briodol.
- Sefydlu system ar gyfer adolygu mynediad i adeiladau'r cyngor yn rheolaidd a'i haddasu lle y bo'n briodol.
- Sicrhau bod mynediad yn addas i'r cyhoedd ddefnyddio toiledau lle y bo'n briodol mewn swyddfeydd dinesig.
- Adolygu hygyrchedd synhwyraidd yn y swyddfeydd dinesig ac adeiladau eraill y cyngor.
- Cydgysylltu â'r Rheolwr Cefnogi Synhwyraidd, a phartneriaid eraill ynghylch materion penodol sy'n effeithio ar bobl â nam ar y golwg a'r clyw.
- Gwella arwyddion ar y fynedfa i Ganolfan Ddinesig Castell-nedd.
- Adeiladu toiled i bobl anabl ger yr ystafelloedd pwyllgor yng Nghanolfan Ddinesig Port Talbot.
- Parhau i gynnal archwiliadau o adeiladau'r cyngor a blaenoriaethu gwaith a nodwyd i wella hygyrchedd yr amgylchedd.

Beth wnaethom ni?

- Gohiriwyd yr adolygiad o arwyddion yn adeiladau'r cyngor a'r swyddfeydd dinesig. Oherwydd gofynion Safonau'r Gymraeg a oedd ar ddod a chyflwyno agenda Digidol drwy Ddewis yn ystod y cyfnod, ystyriwyd yn briodol ohirio'r adolygiad fel y gellid cynnwys yr ystyriaethau ychwanegol hyn yn yr adolygiad. Mae'n annhebygol yr ymgwymerir â'r adolygiad hwn cyn i benderfyniad Comisiynydd y Gymraeg ar wrthwynebiad y cyngor i 55 o Safonau'r Gymraeg, sy'n cynnwys y safon o ran arwyddion, ddod i law.
- Gwnaethpwyd gwelliannau i arwyddion yn y fynedfa i Ganolfan Ddinesig Castell-nedd, gan gyd-fynd ag agor y maes parcio aml-lawr newydd cyfagos ym mis Hydref 2015.
- Mae mynediad allanol i swyddfeydd dinesig wedi'i adolygu a bwriedir gwneud gwaith ar Ganolfan Ddinesig Port

Talbot a fydd yn cynnwys canllawiau newydd, haearn drysau, etc.

- Rydym wedi sefydlu system barhaus o adolygu hygyrchedd adeiladau'r cyngor a fydd yn sicrhau y caiff unrhyw waith i ddarparu neu wella mynediad ei nodi a'i roi ar waith cyn gynted â phosib.
- Mae arolygon yn parhau i benderfynu ar hygyrchedd i doiledau yn adeiladau'r cyngor ac ymgymerir â gwaith hyrwyddo/hysbysebu pan gwblheir yr arolygon.
- Mae'r gwaith o gydlyn â'r Tîm Cefnogaeth Synhwyrdd, grwpiau cydraddoldeb lleol a phartneriaid eraill yn parhau i sicrhau yr ymdrinnir ag unrhyw broblemau ar gyfer pobl â nam ar y golwg a'r clyw. Bydd hon yn agwedd hanfodol o'r adolygiadau o ran arwyddion a gweithgareddau hygyrchedd eraill.
- Mae toiled hygyrch newydd i'r anabl wedi'i greu ar ail lawr y Ganolfan Ddinesig ym Mhort Talbot. Dyma gyfleusterau hirddisgwyliedig i bobl sy'n defnyddio'r ystafelloedd pwyllgor a Theatr y Dywysoges Frenhinol.

2. Sicrhau bod celfi, arwyddion, colofnau goleuadau stryd, etc, mewn mannau priodol

Yn ystod 2015/2016 dywedom y byddem yn gwneud y canlynol:

- Gweithio gyda Grŵp Gweithredu'r Rhwydwaith Anabledd, Partneriaeth Castell-nedd Port Talbot Mwy Diogel a grwpiau perthnasol eraill i ystyried ailosod colofnau golau stryd yn briodol fel rhan o'r cynllun gweddnewid goleuadau stryd.
- Gweithio gyda Grŵp Gweithredu'r Rhwydwaith Anabledd, Partneriaeth Castell-nedd Port Talbot Mwy Diogel a grwpiau perthnasol eraill lle y bo'n briodol i ystyried gwelliannau mynediad fel rhan o waith cynnal a chadw amgylcheddol sylweddol.
- Sicrhau bod cyfarpar chwarae'r datblygiad ysgol newydd ar Rodfa'r Gorllewin yn addas i blant ag anableddau corfforol.
- Sicrhau bod meinciau newydd mewn parciau yn addas i bobl ag anableddau corfforol.
- Parhau i sicrhau bod safleoedd bws yn addas i bob defnyddiwr.
- Parhau i rannu a hyrwyddo arfer da mewn perthynas â chydraddoldeb yn ein meysydd gwasanaeth.

Beth wnaethom ni?

- Yn ystod 2015-2016 ni fu unrhyw waith gweddnwedd goluedau stryd angenrheidiol ar ailosod colofnau goluedau stryd yn briodol.
- Ni fu unrhyw waith cynnal a chadw amgylcheddol sylweddol a fyddai wedi gofyn am gysylltu â grwpiau amrywiol yn ystod cyfnod 2015-2016.
- Cwblhawyd ardal chwarae newydd ar safle datblygiad newydd Ysgol Bae Baglan (er nad yw'n rhan o'r ysgol ei hun) yn ystod y flwyddyn a bydd yn agor yn haf 2016. Gosodwyd amrywiaeth eang o gyfarpar iard chwarae a fydd yn rhoi gwerth chwarae addas i bob plentyn sy'n defnyddio'r iard chwarae.
- Gan fod meinciau presennol parciau mewn cyflwr da ledled y fwrdeistref sirol, ni fu angen gosod rhai newydd yn ystod y cyfnod. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i fonitro cyflwr meinciau ein holl barciau fel rhan o'n gweithdrefnau cynnal a chadw parhaus.
- Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio gyda grŵp lleol i archwilio darpariaeth chwarae newydd bosib ar gyfer plant ag anableddau ym Mharc y Gnoll i gyd-fynd â'r ddarpariaeth safleoedd chwarae bresennol.

3. Dylunio a chyflwyno prosiectau adfywio

Yn ystod 2015/2016 dywedom y byddem yn gwneud y canlynol:

- Cynnwys grwpiau rhanddeiliaid, gan gynnwys y rhai hynny sy'n cynrychioli pobl o grwpiau gwarchoddedig, i lywio'r gwaith o ddylunio a chyflwyno prosiectau adfywio.

Beth wnaethom ni?

- Mae DNAG yn parhau i fod yn aelod allweddol o grŵp rhanddeiliaid y rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid ac mae cynnwys y grŵp yn y ffordd hon wedi'n helpu ni i gyflwyno prosiectau hygyrch.
- Yn ein holl gynlluniau adfywio, rydym wedi defnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd gan DNAG ac eraill i lywio'r

dyluniad er mwyn sicrhau ei fod yn hygyrch i bobl â phroblemau symudedd a phroblemau hygyrchedd eraill.

- Drwy gynnwys DNAG, rydym wedi sicrhau bod y gwaith a wnaed yn Ffordd yr Orsaf Isaf ym Mhort Talbot wedi arwain at hygyrchedd gwell drwy'r defnydd priodol o balmentydd cyffyrddol a safle ac arddull celfi stryd.
- Roedd y gwelliannau i lan yr afon yn y Parc Gwyrdd yn cynnwys ardal chwarae newydd a fydd yn hollol hygyrch ac mae darpariaeth barcio i'r anabl hefyd yn rhan o'r cynllun.
- Cwblhawyd Llwybr yr Harbwr ym mis Mehefin 2015, gan ddarparu gwell mynediad i gerddwyr a beicwyr, preswylwyr ac ymwelwyr i'r orsaf drenau, Glannau'r Harbwr a chanol y dref. Dyluniwyd y llwybr troed i fod yn hygyrch i bawb.
- Cyfarfu Tîm y Prosiect â DNAG i adolygu materion hygyrchedd fel rhan o ddatblygiad Hwb Trafnidiaeth Integredig Port Talbot. Arweiniodd hyn at gynnwys gofynion hygyrchedd yn y dyluniad gyda seddi/meinciau bob 50 metr, palmentydd cyffyrddol, bolardiau gyda strapiau gwrthgyferbyniol i gynorthwyo gwelededd, manau cyhoeddus a chysgodfannau bysus hollol hygyrch.
- Cyfrannodd DNAG yn helaeth at ailddatblygu Gorsaf Parcfordd Port Talbot, gan weithio gyda'r cyngor, Network Rail a Threnau Arriva Cymru. Mae'r ailddatblygiad, a gwblhawyd yng nghanol mis Chwefror 2016, yn darparu mynediad hwylus a diogel o ddwy ochr y rheilffordd a chyswllt 24 awr i gerddwyr/feicwyr rhwng canol y dref a Glannau'r Harbwr.
- Mae ardal ddatblygu'r orsaf, gyda'i hygyrchedd gwell a 200 o fannau parcio newydd gyda chyfleusterau parcio a theithio, yn gwella delwedd canol y dref; bydd o fudd i ymwelwyr a phreswylwyr lleol ac yn annog buddsoddiad a datblygiad.
- Mae'r maes parcio aml-lawr newydd a gwblhawyd ym mis Hydref 2015, fel rhan o ailddatblygu canol tref Castell-nedd, yn hygyrch i bawb ac mae ganddo fwy o fannau parcio i'r anabl, parthau parcio mwy llydan, arwyddion dwyieithog yn ogystal â drysau awtomatig.
- Mae cyfleuster Shopmobility hefyd wedi'i gynnwys yn y maes parcio aml-lawr newydd, gan sicrhau mynediad hwylus i ganol y dref.

Amcan Cydraddoldeb 7: Lleihau bylchau ym mherfformiad addysgol disgyblion yn sgîl eu nodweddion gwarchoddedig

Crynodeb cyffredinol o'n cynnydd

Yn 2015/2016, bu cynnydd cyffredinol o ran presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Fodd bynnag, nid adlewyrchwyd y cynnydd hwn ar draws pob grŵp o ddisgyblion; yn ysgolion cynradd ac uwchradd, mae presenoldeb ymhlith disgyblion o'r gymuned sipsiwn a theithwyr wedi lleihau'n sylweddol dros y cyfnod.

Mae mwy o ysgolion effeithiol ac effeithiol iawn ar draws y fwrdeistref sirol nag o'r blaen. Cynyddodd dangosydd trothwy Lefel 2 Cyfnod Allweddol 4 (5 TGAU gan gynnwys Cymraeg/Saesneg iaith gyntaf a Mathemateg) bron 3% i 58.4% ym mlwyddyn academaidd 2014-2015 ac mae'n uwch na chyfartaledd Cymru. Yn nangosydd trothwy Lefel 2 Cyfnod Allweddol 4 (5 TGAU neu gyfwerth) ni oedd yr uchaf yng Nghymru am y 3edd flwyddyn o'r bron.

Er bod y bwch rhwng merched a bechgyn yn y mesurau llythrennedd a rhifedd yng Nghyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 4 wedi lleihau, mae'r bwch wedi cynyddu yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 3.

Parheir i ddarparu amrywiaeth o gyrsiau perthnasol i wireddu potensial dysgu llawn pobl ifanc. Mae canran y bobl ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET) wedi lleihau i 3.6%

Drwy barhau â'n Rhaglen Strategol Gwella Ysgolion, rydym wedi gallu darparu amgylcheddau gwell i fyfyrwyr, yn enwedig gyda safle hollol hygyrch Ysgol Bae Baglan, a agorwyd ym mis Medi 2016, yn ogystal â pharhau i wella arferion a gweithdrefnau er mwyn cynorthwyo ysgolion i gyflawni deilliannau cytunedig.

1. Cynyddu lefelau presenoldeb disgyblion â'r nodweddion gwarchoddedig

Yn ystod 2015/16 dywedom y byddem yn gwneud y canlynol:

- Parhau â'r arfer bod swyddogion presenoldeb yn cefnogi ysgolion i gasglu data ar nodweddion gwarchoddedig.
- Darparu gwybodaeth fisol am bresenoldeb, gan yr uned ddata, i nodi tueddiadau disgyblion mewn grwpiau a nodwyd.
- Gwerthuso data er mwyn cynorthwyo ysgolion wrth ddatblygu strategaeth gynnwys fel rhan o'u cynllun gweithredu presenoldeb a gyflwynir bob blwyddyn (mis Medi) yn unol â'r cytundeb partneriaeth presenoldeb.
- Dadansoddi gwybodaeth am bresenoldeb mewn perthynas â grwpiau a nodwyd a hysbysu swyddogion perthnasol er mwyn datblygu strategaethau cynnwys gyda disgyblion a nodwyd.

Beth wnaethom ni?

- Mae swyddogion presenoldeb wedi casglu data ar nodweddion gwarchoddedig yn y gorffennol. Fodd bynnag, oherwydd newidiadau i'w rolau a'u cyfrifoldebau yn ystod hanner olaf 2015-2016, mae adolygiad yn cael ei gynnal i benderfynu pwy sydd yn y sefyllfa orau i gefnogi ysgolion i barhau â'r arfer hwn.
- Rydym wedi datblygu proses ar gyfer casglu a choladu data ar grwpiau gwarchoddedig yn fisol; mae hon yn cael ei chwblhau cyn ei chyflwyno i'r swyddogion perthnasol.
- Rydym yn parhau i flaenoriaethu'r gwaith o ddadansoddi a gwerthuso presenoldeb ar draws holl ysgolion Castell-nedd Port Talbot ac rydym wedi datblygu prosesau i rannu'r wybodaeth â rheolwyr allweddol yn y Gyfarwyddiaeth Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes.
- Mae ffigurau presenoldeb misol wedi'u darparu i ysgolion, gyda data ar dueddiadau grwpiau gwarchoddedig a nodwyd yn cael ei ddsbarthu bob chwe mis.
- Cynyddodd presenoldeb mewn ysgolion cynradd 0.2% i 94.8% a chynyddodd presenoldeb mewn ysgolion uwchradd 0.2% i 93.7%. Mae'r ymweliadau craidd parhaus ag ysgolion, sy'n cynnwys edrych ar faterion presenoldeb a thargedau presenoldeb ysgolion gyda chynllun gweithredu a gwerthusiad, wedi cael effaith

gadarnhaol ar lefelau presenoldeb. O'i gymharu ar draws Cymru, mae presenoldeb yn ein hysgolion cynradd yn y 13^{eg} safle a'n hysgolion uwchradd yn y 15^{fed} safle.

- Yn 2015-2016, bu gwelliannau rhwng presenoldeb merched a bechgyn a disgyblion heb AAA a disgyblion ag AAA ers y flwyddyn flaenorol: gwahaniaeth gwerth 0.1% o'i gymharu â 0.13%, ac 1.3% o'i gymharu ag 1.48%. Yn anffodus, ni fu hyn yn wir ar draws yr holl grwpiau sy'n cael eu monitro.
- Yn 2015-2016, roedd lefelau presenoldeb disgyblion o gefndir Prydeinig heb fod yn wyn mewn ysgolion cynradd ac uwchradd wedi lleihau 0.67% a 0.45% yn eu trefn.
- Yn ystod yr un cyfnod, roedd presenoldeb ymhlith plant sipsiwn a theithwyr hefyd wedi lleihau'n sylweddol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd: 3.23% a 7.52% yn eu trefn.
- Roedd nifer y gwaharddiadau parhaol a'r dyddiau a gollwyd o ganlyniad i waharddiadau cyfnod penodol wedi lleihau dros y cyfnod.

2. Lleihau'r bylchau rhwng cyrhaeddiad perfformiad addysgol bechgyn a merched yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol (CA) 2 a 3

Yn ystod 2015/16 dywedom y byddem yn gwneud y canlynol:

- Mynd i'r afael â meysydd dysgu ac addysgu i sicrhau bod y cwricwlwm yn ddiddorol ac yn heriol i fechgyn a merched.
- Hyfforddiant ar gyfer holl staff yr ysgol i sicrhau bod modelau dysgu ac addysgu da yn gyson o ran llythrennedd a rhifedd yn ein hysgolion.
- Nodi arfer da lle mae ysgolion yn arddangos tystiolaeth sy'n gyson gref mewn perthynas â chyrhaeddiad bechgyn.
- Rhannu arfer da drwy ddatblygu Hwb.
- Diweddarau hyfforddiant er mwyn i benaethiaid fonitro grwpiau o ddisgyblion yn effeithiol gan sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd priodol yn seiliedig ar gyflawniad blaenorol.
- Sicrhau bod pob Pennaeth a Dirprwy Bennaeth yn derbyn hyfforddiant cyfredol ar ddadansoddi data, datblygu



hunanwerthuso a'r Cynllun Gwella Ysgol mewn perthynas â chyrhaeddiad neu dangyflawniad disgyblion a nodwyd.

Beth wnaethom ni?



- Mae amrywiaeth eang o gyrsiau a gysylltir â'r gefnogaeth ranbarthol ar gael i bob ysgol. Cyflwynir y rhain gan swyddogion ERW/CNPT.
- Yn ystod 2015-2016, rydym wedi parhau i nodi arfer da fel y gellir ei rannu â phob ysgol. Mae arsylwi ar wersi, craffu ar waith a'r system gategoreiddio wedi'n galluogi i gasglu tystiolaeth ymarferol o arfer gorau.
- Mae pob ysgol bellach yn defnyddio Hwb, yn enwedig fel rhan o'r Rhaglen Sicrhau Asesiadau Athrawon, ac mae'n galluogi enghreifftiau o arfer gorau i gael eu rhannu'n effeithiol.
- Rydym wedi parhau i gefnogi penaethiaid gyda darparu hyfforddiant o ran gwella'r gwaith o fonitro cynnydd disgyblion a dadansoddi data.
- Yn ystod y cyfnod, mae cynnydd disgyblion wedi'i olrhain a'i fonitro'n fwy effeithiol gan bob ysgol, gan ddefnyddio craffu ar waith yn effeithiol.
- Rydym wedi darparu hyfforddiant cyfredol i athrawon a llywodraethwyr newydd ar ddadansoddi data, datblygu hunanwerthuso a'r Cynllun Gwella Ysgol, yn enwedig o ran cyrhaeddiad disgyblion sy'n tangyflawni.
- Mae pob un o'r 93 ysgol wedi derbyn hyfforddiant cyfredol o ran meddalwedd olrhain INCERTS ar gyfer penaethiaid, dirprwy benaethiaid a chydlynwyr asesu, gyda ffocws ar dangyflawniad merched a/neu fechgyn.
- Roedd y bwch yn y mesurau llythrennedd a rhifedd yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 3 ar gyfer blwyddyn academaidd 2015-2016 wedi cynyddu o'i gymharu â 2014-2015: 1.74% ar gyfer llythrennedd a 3.82% ar gyfer rhifedd yn y Cyfnod Sylfaen; a 0.99% ar gyfer llythrennedd a 3.02% ar gyfer rhifedd yng Nghyfnod Allweddol 3.
- Gwelwyd gwelliant yn nau o'r pedwar mesur llythrennedd cyfnod allweddol (Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4) ac roeddent o leiaf 3% yn uwch na'u rhagolwg perfformiad ar gyfer y flwyddyn. Gwaethygodd y deilliannau cyrhaeddiad llythrennedd ar gyfer dau o'r mesurau yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 ar

gyfer y flwyddyn.

- Roedd y bwch rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched yn y mesurau llythrennedd wedi lleihau yn nau o'r pedwar cyfnod allweddol (Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 4). Fodd bynnag, mae hwn yn cael ei wrthbwysu gan y dirywiad sylweddol o ran perfformiad merched yng Nghyfnod Allweddol 4: 76.06% yn 2015-2016 o'i gymharu ag 81.87% yn 2014-2015.



- Yn yr un modd, roedd y bwlch rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched yn y mesurau llythrennedd wedi lleihau yn nau o'r pedwar cyfnod allweddol (Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 4). Unwaith eto, mae hwn yn cael ei wrthbwysu gan ddirywiad o ran perfformiad merched yng Nghyfnod Allweddol 4: 68.07% o'i gymharu â 64.87% yn 2014-2015



Amcan Cydraddoldeb 8 - Sicrhau bod ein prosesau cyflogi a recriwtio'n hybu tegwch a chydraddoldeb i bawb

Perfformiad cyffredinol

Roedd y cyngor yn gyflogwr 'Tic Dwbl' o ran bod yn gadarn o blaid pobl anabl yn y gorffennol ac rydym bellach wedi cyrraedd Lefel 2 y cynllun 'Dinas sy'n Hyderus wrth Ymdrin ag Anabledd' i fod yn Gyflogwr sy'n Hyderus wrth Ymdrin ag Anabledd. Bydd yr achrediad hwn yn para tan 8 Awst 2017; cyn diwedd y cyfnod hwn, byddwn yn cynnal hunanasesiad er mwyn parhau â'n hymrwymiad i'r cynllun.

Ceir adroddiad ar wahân am [Wybodaeth Cyflogaeth](#) ar gyfer y cyfnod 2015-2016.

Yn ystod 2015/16 dywedom y byddem yn gwneud y canlynol:

- Adolygu'n polisïau cyflogaeth bob tair blynedd:-
 - Polisi a Gweithdrefn Datgelu Camarfer
 - Polisi a Gweithdrefn Achwyn
 - Polisi Trais yn y Cartref
 - Cyfle Cyfartal mewn Polisi Cyflogaeth
 - Polisi Gweithio Hyblyg
- Cynnal hyfforddiant ar gyfer rheolwyr recriwtio sy'n amlinellu eu cyfrifoldebau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, gan wneud addasiadau rhesymol, yn y cyfweiliad ac wrth ystyried yr ymgeisydd gorau ar gyfer y swydd, a sicrhau proses deg a thryloyw.
- Casglu gwybodaeth am nodweddion gwarchoddedig (mae hyn yn rhan o Brosiect Datblygu VISION ac mae angen rhoi cymeradwyaeth er mwyn i'r datblygiad hwn gael ei flaenoriaethu gan y Bwrdd Effeithlonrwydd).
- Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar wybodaeth am gyflogaeth fesul nodwedd warchoddedig (gweler uchod).
- Ymgynghori'n barhaus ar fonitro datblygiadau ac amcanion y dyfodol. Mae'r rhain i'w cynnwys ar yr agenda bob blwyddyn ar gyfer y Fforwm Gwasanaethau Llywodraeth Leol.

Beth wnaethom ni?

- Cwblhaom yr adolygiad o'n Polisi a Gweithdrefnau Datgelu Camarfer ym mis Hydref 2015, yn unol â gofynion Swyddfa Archwilio Cymru.
- Rydym yn parhau i weithio i adolygu ein polisïau eraill a chwblheir ein hadolygiad o'n Polisi Cyfle Cyfartal mewn Cyflogaeth a'n Polisi Gweithio Hyblyg erbyn diwedd mis Mawrth 2017. Nid yw'r amserlen ar gyfer yr adolygiad o'n Polisi a Gweithdrefn Achwyn a'n Polisi Trais yn y Cartref wedi'i chadarnhau eto.
- Yn ystod 2015-2016, darparwyd hyfforddiant ar gyfer 25 o reolwyr recriwtio ac rydym wedi trefnu sesiynau hyfforddiant ychwanegol ar gyfer 17 o reolwyr eraill.
- Rydym wedi parhau i weithio i ddatblygu porth gweithwyr er mwyn casglu'r data angenrheidiol a chyflwynir adroddiad cwmpasu i fwrdd y prosiect Digidol drwy Ddewis yn gynnar yn 2017.

- Adroddwyd am y data ar gyfer 2015-2016 i'r Pwyllgor Personél ar 1 Medi 2015. Nid oes llawer o newid o ran cyfansoddiad gweithlu'r cyngor o ganlyniad i'r cyfyngiad ar recriwtio'n allanol.
- Fel rhan o'n proses ymgynghori, ystyriodd y Fforwm Gwasanaethau Llywodraeth Leol ein hamcanion cydraddoldeb ar 6 Gorffennaf 2015. Roedd yr undebau llafur yn fodlon ar y fformat a byddwn yn parhau i ymgynghori ar hyn yn flynyddol.

Amcan y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau - Datblygu data cyflog/cyflogaeth ymhellach er mwyn deall yn well y rhesymau dros y bwlch rhwng cyflogau'r rhywiau a nodi unrhyw gamau y gellir eu cymryd i leihau'r bwlch cyflog.

Yn ystod 2015/16 dywedom y byddem yn gwneud y canlynol:

- Mynd i'r afael ag anghysondebau sydd eisoes yn bod.
- Nodi a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn y data.
- Llunio a chyhoeddi gwybodaeth am y bwlch cyflog yn yr adroddiad blynyddol ar wybodaeth am gyflogaeth.
- Penderfyniad polisi y bydd yr holl ddechreuwr newydd yn dechrau ar bwynt isaf y raddfa. Caiff hyn ei fonitro drwy'r Ffurflen Monitro Cyflogau Cychwynnol.

Beth wnaethom ni?

- Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio ar broses adrodd am y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, yn unol â gofynion deddfwriaethol diweddar. Bydd hon yn ein helpu i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn y data sydd gennym a sicrhau y bydd monitro effeithiol yn y dyfodol.
- Rydym yn parhau i adrodd gwybodaeth am y bwlch cyflog fel rhan o'r adroddiad blynyddol i aelodau ar wybodaeth am gyflogaeth ym mis Medi bob blwyddyn.
- Fel rhan o'n hymrwymiad i sicrhau arferion teg a chyfartal, gwnaethom ymrwymiad polisi fel rhan o'r broses o gyflwyno gwerthuso swyddi yn 2008 y bydd yr holl ddechreuwr newydd yn dechrau ar bwynt isaf y raddfa. Mae'r polisi hwn yn parhau mewn grym ac yn cael ei fonitro drwy'r Ffurflen Monitro Cyflogau Cychwynnol.

Adran 4 – Bodloni dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus a dyletswyddau penodol

Yn ystod 2015-2016, canolbwyntiom ar adolygu ein hamcanion cydraddoldeb ac adolygu'r [Cynllun Cydraddoldeb Strategol](#) yn ogystal â symud ymlaen â'r camau gweithredu dilynol. Rydym wedi bod yn ymwybodol o heriau ariannol parhaus, llai o allu, mwy o ddisgwyliadau a'r demograffig newidiol yng Nghastell-nedd Port Talbot, gan sbarduno adolygiad cynnar o'n hamcanion. Rydym wedi parhau i weithio i fodloni'r amcanion cydraddoldeb gan gadw mewn cof yr adolygiad o'r amcanion, a'r newidiadau posib iddynt.

Mae canolbwyntio ein hymdrechion ar wella hygyrchedd ein gwefan, gweithio i fynd i'r afael â throseddau casineb a thrais yn y cartref, a gwella ein prosesau Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi ein galluogi i wella meysydd sy'n cael yr effaith fwyaf ar fywydau pobl.

Mae ein hamcanion cydraddoldeb a blaenoriaethau gwella corfforaethol wedi'u hunioni i sicrhau ymagwedd fwy cyfannol. Mae hyn wedi sicrhau bod y cynnydd a wneir yn ategu'r amcanion a'r blaenoriaethau; er enghraifft, mae'r gwaith ar wella cynhwysiant digidol ar draws y fwrdeistref sirol yn helpu i gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb a'n blaenoriaeth gwella ehangach. Gellir dod o hyd i'n cynnydd yn erbyn ein blaenoriaethau gwella yn [Adroddiad Blynyddol Cynllun Gwella Corfforaethol 2015-2016](#).

O ganlyniad i sefyllfa'r Fforwm BME ar ddiwedd 2014-2015, aethom ati i sicrhau y byddai'r ymrwymiad i gadw'r fforwm yn fyw yn cael ei adlewyrchu yn y cynllun diwygiedig. Gan weithio gyda'n gilydd yn ystod 2015-2016, rhoddwyd cynlluniau ar waith i recriwtio gweithiwr datblygu ymrwymedig gyda'r nod o ddatblygu'r fforwm er mwyn i'w aelodaeth adlewyrchu proffil cymunedau lleol; yn unol â chyfarwyddyd y fforwm, datblygu prosiectau a mentrau sy'n hyrwyddo lles pobl o gymunedau BME lleol, gan gynnwys datblygu cynigion prosiectau, ariannu ceisiadau, a chryfhau cysylltiadau rhwng y cyngor a chymunedau BME. Ar ôl proses recriwtio a ddechreuodd yn haf 2016, penodwyd rhywun ym mis Hydref 2016.

Cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg Hysbysiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ym mis Medi 2015. Ar ôl ystyried goblygiadau'r safonau, cyflwynodd y cyngor wrthwynebiad i 55 o safonau, ac ystyriwyd 54 o safonau'n wrthwynebiad dilys. Nid yw penderfyniad terfynol y Comisiynydd wedi dod i law eto.

Mae'n rhaid i ni lunio adroddiad blynyddol ar sut rydym wedi cydymffurfio â'r safonau hyn sy'n berthnasol i'r cyngor a chyhoeddwyd yr adroddiad blynyddol cyntaf ar 30 Mehefin 2016, yn unol â'r gofynion statudol.

Nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol

Rydym wedi parhau i gysylltu ag aelodau'r cyhoedd, partneriaid, cymunedau lleol a grwpiau â diddordeb i gasglu gwybodaeth, gan helpu i lywio ein hamcanion cydraddoldeb a'n strategaethau, ein polisiau a'n cynlluniau eraill, yn ogystal â'r modd y cyflwynir ein gwasanaethau.

Rydym yn ymwybodol bod nodi a chasglu gwybodaeth yn parhau i fod yn elfen allweddol, yn enwedig o ran y broses asesu effaith cydraddoldeb. Yn ystod y flwyddyn, bu peth gwelliant wrth i ni gasglu a dadansoddi'r data sydd gennym o ran defnyddwyr gwasanaeth a staff. Fodd bynnag, nid ydym wedi gwella cymaint yn y maes hwn ag y byddem wedi dymuno, yn enwedig o ran data cyflogaeth. Dyma fater parhaus yr ydym yn benderfynol o weithio i'w wella ymhellach dros gyfnod y cynllun.

Roedd gwella casglu data'n un o argymhellion yr archwiliad Aseiad Effaith Cydraddoldeb; er bod peth gwaith wedi'i wneud i fynd i'r afael â hwn, gan gynnwys cynyddu ymwybyddiaeth staff o gysylltu â grwpiau cydraddoldeb lleol, rydym yn parhau i weithio i ddeall ein cymunedau lleol yn well.

Rhai enghreifftiau o'n gwaith yn ystod 2015-2016

- Mae'r Tîm Diogelwch Cymunedol yn parhau i lunio cylchlythyr chwarterol sy'n cynnwys gwybodaeth am droseddau casineb ac yn parhau i hyrwyddo'r rhif ffôn 101 ar gyfer adrodd.
- Dathlodd 'Cŵn ar Batrôl' ei ben-blwydd cyntaf ym mis Hydref 2015. Nod y cynllun yw annog cerddwyr cyfrifol a cherddwyr cŵn i adrodd am unrhyw ymddygiad amheus, tipio anghyfreithlon, goleuadau stryd diffygiol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. O fis Mawrth 2016, roedd 340 o aelodau wedi ymuno â'r cynllun.
- Trwy arian grant Llywodraeth Cymru, rydym wedi gallu gwneud nifer o welliannau i gyfleusterau mewn safleoedd sipsiwn a theithwyr. Mae'r rhain yn cynnwys gwaith adnewyddu ar flocliau cyfleustodau, ffensys newydd a defnyddio dwy lain a oedd wedi'u datgomisiynu gynt, gan gynyddu cyfanswm y lleiniau preswyl

cyhoeddus yng Nghastell-nedd Port Talbot o 54 i 56.

- Ynghyd â chynghorau Abertawe a Phen-y-bont ar Ogwr, rydym wedi hyrwyddo gwybodaeth am gaethwasiaeth mewn lleoedd blaenllaw yng nghanol trefi ac mewn lleoedd cyhoeddus yn ystod yr wythnos ymwybyddiaeth gwrthgaethwasiaeth/troseddau casineb.
- Cytunwyd ar yr estyniad i safle sipsiwn a theithwyr Cae Garw a chwblhawyd yr 11 o leiniau ychwanegol erbyn diwedd mis Mawrth 2016.
- Mae fforwm sipsiwn a theithwyr lleol wedi'i sefydlu. Mae'r fforwm yn cynnwys partneriaid a rhanddeiliaid allweddol sy'n gweithio gyda'r gymuned leol a'i amcan yw rhannu gwybodaeth rhwng partneriaid a rhoi cyfle i weithio ar y cyd i ddiwallu anghenion y gymuned leol ym meysydd iechyd, tai, addysg a chefnogaeth. Un o ganlyniadau trafodaethau'r fforwm oedd ymweliad y bws chwarae â safle sipsiwn a theithwyr Llansawel yn ystod gwyliau'r Pasg.
- Lleihawyd yr amser cyfartalog a gymerwyd i gyflwyno'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl, a chyflwynwyd mwy o grantiau, 338 yn 2015-2016 o'u cymharu â 323 yn 2014-2015. Dangosodd arolygon boddhad cwsmeriaid lefel uchel o foddhad, gyda thros 96% o ymatebwyr yn dweud bod ansawdd eu bywyd wedi gwella o ganlyniad i'r addasiad a 100% yn cytuno nad oes angen iddynt ystyried symud mwyach.
- Agorwyd Plas Bryn Rhosyn, y cartref gofal preswyl newydd, yng Nghaewern, Castell-nedd ym mis Tachwedd 2015.
- Sefydlom gytundeb partneriaeth i sicrhau gweithio agos rhyngom a'r Adran Gwaith a Phensiynau wrth gefnogi trosglwyddo hawlwr i Gredyd Cynhwysol. Gyda llwyddiant y cytundeb hwn yn ystod 2015-2016, rydym wedi rhoi cytundeb newydd ar waith i fynd i'r afael â'r gofynion ar gyfer 2016-2017.
- Rydym wedi rhoi'r trefniadau 'Pan fyddaf yn barod' ar waith sy'n ofynnol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r trefniadau hyn yn cefnogi'r cyfleoedd ar gyfer y rhai ifanc sy'n gadael gofal sydd dros 18 oed i aros gyda'u gofawr maeth nes eu bod yn 21 oed (neu 25 oed os ydynt mewn addysg bellach), fel modd o wella'r canlyniadau ar gyfer pobl ifanc wrth iddynt dyfu'n oedolion.
- Cymeradwyodd Aelodau Cabinet Strategaeth Cymorth i Deuluoedd ym mis Mai 2015, a gaiff ei hadolygu'n

flynyddol am y tair blynedd nesaf.

- Sefydlom Weithgor Cyfranogiad a Chynnwys ym mis Mawrth 2015 er mwyn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Penodwyd Swyddog Cynnwys a Chyfranogiad ym mis Gorffennaf 2015 i gefnogi'r gweithgor.
- Cynhaliwyd Diwrnod Coffáu'r Holocaust ym mis Chwefror 2016 a oedd yn edrych ar y presennol a'r dyfodol, gyda pherfformiadau dan y thema 'Peidio â sefyll o'r neilltu', gan archwilio cyfrifoldebau unigolion i beidio ag anwybyddu troseddau casineb a rhagfarnau, neu fygythiadau hil-laddiad rhyngwladol.
- Cwblhawyd y gwaith ar yr ysgol uwchradd 3-11 hollol hygyrch newydd, Ysgol Bae Baglan, a fydd yn barod i ddisgyblion ddechrau'r flwyddyn ysgol newydd ym mis Medi 2016.
- Mae gwaith wedi parhau i gefnogi'r Fforwm BME drwy gydol y flwyddyn; ar ôl nifer o drafodaethau â'r fforwm, cytunwyd bod angen mwy o gefnogaeth arno iddo gyflawni ei botensial. Nodwyd swydd gweithiwr datblygu fel cefnogaeth briodol, felly dechreuodd proses recriwtio a phenodwyd rhywun ym mis Hydref 2016.
- Rydym yn parhau i gefnogi'r Cyngor Pobl Hŷn i sicrhau ei fod yn parhau fel mecanwaith cynnwys hanfodol i roi annibyniaeth a gwybodaeth i bobl hŷn.
- Roedd grwpiau cydraddoldeb lleol yn ddylanwadol wrth ddatblygu'r amcanion cydraddoldeb. Cynhaliwyd gweithdai i archwilio'r anghenion, y safbwyntiau a'r gofynion yn llawn, a'u troi'n gamau gweithredu/amcanion.
- Mis Hanes Pobl Dduon 2015: Merched Du Rhagorol, Ddoe a Heddiw oedd enw'r dathliadau yn 2015. Cynhaliwyd gweithgareddau i ddathlu a hyrwyddo Mis Hanes Pobl Dduon drwy gydol mis Hydref, gan gyrraedd ei uchafbwynt gyda'r digwyddiad dathlu ym mis Tachwedd 2015. Unwaith eto, trefnodd y Gwasanaeth Cyflawniadau Addysg Lleiafrifoedd (MEAS) y digwyddiad, a gynhaliwyd yng Nghanolfan Celfyddydau Pontardawe gyda chyfraniadau gan ysgolion lleol.

Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd parhaus aseidiadau effaith cydraddoldeb ac, yn ystod 2015-2016, rydym wedi bod

yn awyddus i archwilio'r ffyrdd gorau o wella'r broses asesu.

Cynhaliwyd archwiliad Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn hydref 2015 a nodwyd nifer o argymhellion i wella'r broses, gan gynnwys adolygu casglu data, hyfforddiant ychwanegol ac adolygu'r pecyn cymorth, gan gynnwys datblygu'r adran fonitro ac arferion craffu parhaus. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi gallu rhoi rhai o'r rhain ar waith ac mae gwaith yn parhau i gyflawni'r argymhellion eraill yn ystod 2016-2017.

Gwybodaeth Benodol am Gyflogaeth

Ceir adroddiad ar wahân am [Wybodaeth Cyflogaeth](#) ar gyfer y cyfnod 2015-2016.

Mae'r data wedi'i ddadansoddi yn ôl y nodweddion gwarchoddedig, sef rhyw, hil, anabledd ac oedran, ac yn ôl meini prawf penodol. Er bod y data mewn perthynas â'r nodweddion hyn o safon, mae bylchau yn yr wybodaeth y gallwn ei chasglu ar hyn o bryd o ran y nodweddion gwarchoddedig canlynol: ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd a chred a thueddfryd rhywiol.

Mae'r data naill ai ar gyfer y cyfnod o 12 mis rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016, neu, lle y bo'n briodol, yn giplun o'r gweithlu ar 31 Mawrth 2016.

Adran 5 - Dweud eich dweud

Hoffem gael eich barn ar yr adroddiad hwn a'n hamcanion cydraddoldeb er mwyn ein helpu i benderfynu ar faterion pwysig. Os hoffech rannu eich barn, cysylltwch â'r Tîm Strategaethau Corfforaethol drwy'r e-bost corporate.strategy@npt.gov.uk neu drwy'r cyfeiriad post hwn: Y Tîm Strategaethau Corfforaethol, CBS Castell-nedd Port Talbot, Canolfan Ddinesig, Port Talbot SA13 1PJ.

Mae nifer o wasanaethau'n cynnal digwyddiadau ymgynghori a chynnwys a gellir canfod y rhain ar ein gwefan: <http://www.npt.gov.uk/haveyoursay>



Hoffwch ni neu ychwanegwch eich sylwadau ar ein tudalen Facebook:
<https://www.facebook.com/CyngorCNPT>



Dilynwch yr adroddiad hwn ac ychwanegwch eich trydarau at ein tudalen Twitter: @[CyngorCNPT](#)